Chomolunga

(penderfyniad / dewrder / gwerthfawrogi)

Dyma enw'r bobl leol ar y mynydd maen nhw'n ei weld bob dydd. Hwn ydi'r mynydd uchaf yn y byd – Mynydd Eferest sy'n 8,848m o uchder. Ystyr yr enw Chomolunga ydi 'Mam dduwies y byd i gyd'. Ym 1953 dringodd Edmund Hillary i gopa'r mynydd hwn am y tro cyntaf erioed.

Ar gyrion Auckland, Seland Newydd, y ganed Hillary. Pan oedd yn fachgen ysgol aeth ar daith gyda gweddill y plant i ddringo mynyddoedd yn ei wlad ei hun. Doedd dim troi'n ôl wedyn. Er fod ganddo ddiddordeb mewn cadw gwenyn, mynydda oedd yn mynd â'i fryd. Tyfodd yn fachgen cryf a dewr a'r mynydd yn ei waed. Dechreuodd ddringo yn yr Alpau ac yna yn yr Himalayas a gwnaeth enw iddo'i hun fel dringwr medrus ac addawol.

Am bron i ddeng mlynedd ar hugain, bu dringwyr o bob rhan o'r byd yn ceisio cyrraedd copa mynydd Eferest. Hon oedd y gamp i unrhyw ddringwr gwerth ei halen. Bu farw niferoedd mawr ohonyn nhw wrth geisio concro mynydd ucha'r byd.

Ym mis Chwefror 1953 cychwynnodd criw o ddringwyr o Brydain i geisio dringo Chomolunga. Erbyn mis Ebrill roedd y tîm wedi cyrraedd gwaelodion y mynydd. Dyna pryd y cyfarfu Hillary â'i gyfaill Sherpa Tensing Norgay. O'r munud hwnnw daeth y ddau yn ffrindiau pennaf. Ar ôl wythnosau o ddringo caled ar draws dyffrynnoedd o eira trwchus, rhew caled a rhewlifau anferth dyma'r tîm yn codi pebyll i orffwyso cyn cyrraedd y copa. Bellach roedd pob cam yn bwysig.

O dydd i ddydd roedden nhw'n dringo'n uwch ac yn uwch. Roedd hi'n mynd yn oerach ac yn oerach o funud i funud. Dewiswyd pedwar o'r dringwyr gorau i geisio cyrraedd y copa. Ymhen rhai dyddiau roedd dau ohonyn nhw wedi rhoi'r gorau iddi oherwydd y tywydd oer. Dim ond dau oedd ar ôl. Y ddau ffrind Hillary a Tensing.

Roedd hi'n fore bendigedig, clir a braf ond yn eithriadol o oer. Roedd popeth yn barod. Digon o ddillad, bagiau cysgu, bwyd ac ocsigen. Ar ôl dringo gam wrth gam, ymhen pedair awr roedden nhw wedi cyrraedd craig fechan 300 metr o'r copa.

Edrychodd Hillary ar y thermomedr – minws 27ºC. Rhaid oedd cael pryd o fwyd – sardîns ar fisgedi gyda jam a mêl. Dyma'r

ddau'n syrthio i gysgu am awr neu ddwy. Ar ôl iddyn nhw ddeffro roedden nhw'n teimlo'n anghyfforddus iawn.

Am bedwar o'r gloch fore'r 29 o Fai 1953 cododd Hillary a Tensing. Bore arall clir a braf ond eithriadol o oer – minws 29ºC. Am hanner awr wedi chwech y bore, ar ôl bwyta brecwast a gwneud yn siŵr fod y caniau ocsigen yn saff, dyma gychwyn tua'r copa. Troediodd y ddau yn ofalus i dir nad oedd neb wedi mentro arno o'r blaen. Gam wrth gam, modfedd wrth fodfedd, cyrhaeddodd y ddau'r copa. Am 11.30 y bore roedden nhw ar ben y byd!

Roedd mynydd ucha'r byd wedi'i goncro o'r diwedd! Dyma ysgwyd llaw a chofleidio'i gilydd. I ddathlu'r digwyddiad dyma nhw'n bwyta darn o deisen Kendal. Doedd yna ddim llawer o amser i aros ar y copa gan fod yr ocsigen yn brin. Yn ara ymlwybrodd y ddau i lawr o'r copa tuag at y pebyll ar y graig islaw. Doedd dim amdani ond suddo i'w bagiau cysgu ac aros yno weddill y dydd.

Ar ôl y diwrnod rhyfeddol hwn penderfynodd Hillary ei fod am wneud ei orau dros bobl Nepal gan ei fod wedi bod mor ffodus â chael ffrind tebyg i Tensing. Ymhen rhai blynyddoedd aeth yn ôl i Nepal a bu'n hael iawn wrth y bobl. Rhoddodd gyfraniad pur sylweddol i godi ysbyty i'r bobl.

Adnod: "Dyrchafaf fy llygaid i'r mynyddoedd." Salm 121:1

Gweddi: Wnei di fy nysgu, O Dduw, i werthfawrogi y pethau sydd o'm cwmpas. Amen.

Trafod:

- Pam rydych chi'n credu fod pobl yn dringo mynyddoedd a wynebu peryglon mawr?
- Beth, yn eich barn chi, oedd cyfraniad Sherpa Tensing?